Snowdonia Pumped Hydro

# Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Adolygiad 2023



HRA_0.1
Medi 2023

Cyfrinachol

Snowdonia Pumped Hydro

# Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd

Adolygiad 2023

**Math o ddogfen (fersiwn) Cyfrinachol**

**Rhif Prosiect 62280574**

**Ein Cyfeirnod Ni. HRA_0.1**

**Dyddiad: Medi 2023**


WSP

Kings Orchard
1 Queen Street
Bristol
BS2 0HQ

Phone: +44 117 930 6200

WSP.com

# Rheoli ansawdd

| Rhifyn/adolygiad | Y rhifyn cyntaf | Adolygiad 1 | Adolygiad 2 | Adolygiad 3 |
|---|---|---|---|---|
| Sylwadau | | | | |
| Dyddiad | 01/09/2023 | | | |
| Paratowyd gan | Manasvi Singh | | | |
| Llofnod | | | | |
| Gwiriwyd gan | Philip Peterson | | | |
| Llofnod | | | | |
| Awdurdodwyd gan | Adrian Hutchings | | | |
| Llofnod | | | | |
| Rhif prosiect | 62280574 | | | |
| Rhif yr adroddiad | HRA_0.1 | | | |
| Cyfeirnod ffeil | Testun tabl | | | |

# Cynnwys

**Crynodeb gweithredol**

# Crynodeb gweithredol

Gwnaeth Snowdonia Pumped Hydro Limited (SPH) gais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) ar gyfer adeiladu a gweithredu cynllun storfa bwmpio yn chwareli Glyn Rhonwy a Chwarel Fawr ger Llanberis ym mis Hydref 2015. Daeth Gorchymyn Gorsaf Gynhyrchu Storfa Bwmpio Glyn Rhonwy i rym ar 29 Mawrth 2017, a roddodd ganiatâd ar gyfer y Cynllun Arfaethedig.

Ers i'r Gorchymyn gael ei roi, mae SPH wedi bwrw ymlaen â'i gynlluniau i ddechrau adeiladu yn unol â'r DCO. Ar ôl cynnal proses dendro gystadleuol yn dilyn gwaith dylunio peirianyddol helaeth, mae wedi dod yn amlwg, oherwydd y cynnydd diweddar mewn chwyddiant mewn deunyddiau adeiladu a llafur, bod economeg y prosiect wedi newid; bydd penderfyniad buddsoddi terfynol y prosiect nawr yn dibynnu ar y Cynllun Cymhelliant Storio Ynni Mawr a Hyd Hir sydd ar y gweill gan Lywodraeth y DU sydd i fod i gael ei roi ar waith yn 2024. O ganlyniad, mae'n annhebygol bellach y bydd SPH yn gallu dechrau'r datblygiad awdurdodedig cyn i'r Gorchymyn ddod i ben ar 29 Mawrth 2024.

Felly, ceisir newid ansylweddol i'r Gorchymyn, sy'n ceisio ymestyn y terfyn amser ar gyfer cychwyn y datblygiad awdurdodedig yn ffurfiol 24 mis i 29 Mawrth 2026.

Gan fod cais am ddiwygiad ansylweddol (NMA) yn cael ei gyflwyno, mae angen penderfynu a fyddai'r estyniad arfaethedig i'r dyddiad cau yn arwain at unrhyw newidiadau i'r manylion neu ganlyniad i'r asesiad o'r effeithiau ar Safleoedd Ewropeaidd.

Mae'r Adroddiad ar Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) hwn yn darparu gwybodaeth wedi'i diweddaru i hysbysu'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd sydd i'w lunio gan Weinidogion Cymru wrth benderfynu ar y cais NMA. Mae'r diweddariadau hyn wedi cael eu hysbysu gan:

- Cafodd adolygiad o ddiweddariadau i ddeddfwriaeth, polisi a chanllawiau HRA ers Adroddiad HRA 2021 ei gynhyrchu;
- Chwiliad wedi'i ddiweddaru ar gyfer cynlluniau a phrosiectau newydd/wedi'u newid i'w hystyried wrth asesu effeithiau ar y cyd; ac
- Ailedrych ar y potensial ar gyfer Effeithiau Sylweddol Tebygol (LSE) ac Effeithiau Andwyol ar Uniondeb (AEOI) yng ngoleuni unrhyw wybodaeth newydd a nodwyd.

Ar ôl cwblhau'r gwaith hwn i ddiweddaru Adroddiad HRA 2021, daethpwyd i'r casgliad na fyddai'r Cynllun Arfaethedig yn arwain at effeithiau niweidiol ar uniondeb unrhyw Safleoedd Ewropeaidd. Yn unol ag Adroddiad HRA 2021, ar

gyfer y rhan fwyaf o Safleoedd Ewropeaidd, ni ragwelir y bydd LSE yn codi. Nid oes unrhyw gynlluniau na phrosiectau wedi cael eu nodi a allai gyfuno â'r Cynllun Arfaethedig i sbarduno LSE cyfunol.

Mae'r canfyddiadau hyn, yn eu hanfod, yr un fath â'r rhai a gafwyd yn Adroddiad HRA 2021. Felly, nid oes angen gwneud unrhyw waith asesu ychwanegol mewn perthynas â HRA.

Kings Orchard
1 Queen Street
Bristol
BS2 0HQ

**wsp.com**

Nid yw WSP UK Limited yn gwneud unrhyw warantau, gwirioneddol nac ymhlyg, mewn perthynas â'r adroddiad hwn, na'r effaith fasnachol, dechnegol, economaidd neu ariannol yn y pen draw ar y prosiect y mae'n ymwneud ag ef, ac nid yw'n ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd sy'n gysylltiedig â'i ddefnydd ac eithrio fel y nodir yn y contract y cafodd ei gyflenwi oddi tano.